# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)26-08

**Dyddiad:**Dydd Mawrth 14 Hydref 2008
**Amser:**8.30 a.m.
**Lleoliad:**Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Arweinydd y Ty
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Ty
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau
Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)25-08 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 7 Hydref 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

2.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 7fed Hydref i wahodd Alun Davies a Janice Gregory i ddod i'r Pwyllgor Busnes i drafod cynigion ar gyfer Pwyllgor Cyfathrebu. Cytunwyd y dylid gohirio hyn nes i'r pwyllgor ystyried y papur sydd i ddod ar bwyllgorau parhaol, a fyddai'n cael ei ddosbarthu i Reolwyr Busnes cyn gynted ag y bo modd.

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)26-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Ty y byddai'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud datganiad ar Fanciau Gwlad yr Ia a'r goblygiadau ar gyfer Cymru yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

3.2 Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno ddydd Mawrth i ddwyn ymlaen gynigion i sefydlu ac ethol Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch diwydiant Cig Coch Cymru.

3.3 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.
3.4 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes ar gyfer 14 a 15 Hydref 2008.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)26-08(p2)**

3.5 Nododd y pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)26-08(p3)**

3.6 Cytunodd y pwyllgor i drefnu dadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2007/08 (30 munud) ar 12 Tachwedd.

3.7 Dywedodd William Graham bod cyfnodau o 90 a 105 munud wedi'u dyrannu i'r Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer dadleuon ar 22 Hydref a 5 Tachwedd yn eu tro. Gofynnodd a oedd yn bosibl i ddyrannu cyfnodau o 60 munud i ddadleuon y Ceidwadwyr Cymreig yn y dyfodol ac a oedd yn bosibl i unrhyw amser sy'n weddill gael ei ail-ddyrannu i'r Ceidwadwyr ar adegau priodol.

3.8 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion - BC(3)26-08(p4)**

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

**5. Pwyllgorau'r Cynulliad**

5.1 Nododd y Pwyllgor Busnes fod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig wedi canslo'i gyfarfod ddydd Llun 13eg Hydref oherwydd nad oedd y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch. Cytunodd y pwyllgor i ail-drefnu'r cyfarfod ar gyfer 4.30pm ddydd Llun 20fed Hydref.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**